CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND



# CYNLLUN CORFFORAETHOL
2015/16

**Clawr: Cymdeithas Gymunedol Gorllewin Hampstead**

Mae'r both cymunedol yn rhedeg gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngorllewin Hampstead. Mae'r rhain yn amrywio o ddawns stryd i grwpiau cymdeithasol i ddosbarthiadau celf, ar gyfer pobl o bob oedran.

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

**Rydym yn credu mai pobl a ddylai arwain ar wella'u bywydau a'u cymunedau, gan ganolbwyntio ar eu sgiliau, asedau ac egni a'r potensial yn eu syniadau. Gweledigaeth uchelgeisiol – ond sut dylid ei rhoi ar waith?**

Y Cynllun Corfforaethol hwn yw'r un cyntaf ers i ni gyhoeddi ein Fframwaith Strategol, a ddisgrifiodd y weledigaeth eofn hon, yn gynharach eleni. Gan hynny mae'n garreg filltir bwysig iawn, sy'n amlinellu'r hyn y mae angen i ni ei gyflawni ym mlwyddyn un i fedru cyflymu ein cynnydd dros fywyd y fframwaith. Mae'n hanfodol hefyd i ddeall y cynnydd rydym yn ei wneud o ran gwella fel corff sy'n gwneud grantiau – trwy amlinellu ystod o fesurau ar gyfer asesu ein heffeithiolrwydd.

Felly beth yw ein blaenoriaethau eleni? Yn gyntaf, mae angen i ni sefydlu ein fframwaith newydd. Rydym wedi bod yn uchelgeisiol – mae ein gweledigaeth Pobl yn Arwain yn berthnasol i bopeth a wnawn fel ariannwr – felly mae sylfeini cryf yn hanfodol. Ac yn ail, mae angen i ni barhau i wneud grantiau gwych i brosiectau gwych – gan gadw ein costau i lawr a mwyafu'r arian sydd ar gael gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer pobl a chymunedau. Mae'r cynllun hwn yn gosod ein targedau a mesurau ar gyfer y blaenoriaethau hyn dros y flwyddyn i ddod. Mae'n bodoli ochr yn ochr â'n Fframwaith Strategol sy'n pennu ein cyfeiriad ar gyfer ein gwaith dros y chwe blynedd nesaf o'n gwaith a'n Hadroddiad Blynyddol sy'n rhoi manylion yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd



**Older and Active**
Mae'r prosiect yn hyrwyddo bywydau iach ac actif ar gyfer pobl hŷn yn Leeds, trwy ddarparu cyfleoedd i ymuno â grwpiau cerdded, dosbarthiadau ymarfer corff a gweithgareddau grŵp eraill.

# Amdanom ni

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol, ar hyd braich o'r llywodraeth, sy'n gweithio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Rydym ni'n gyfrifol am ddosbarthu 40 y cant o'r holl arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol – tua £650 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae ein hariannu'n wahanol i wariant y llywodraeth ac yn treiddio i bob cymdogaeth yn y DU a'r tu hwnt, gyda dyfarniadau'n amrywio o rai cannoedd o bunnoedd i grantiau gwerth sawl miliwn o bunnoedd.

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi dibenion elusennol cyffredinol, iechyd, addysg a'r amgylchedd. Mae ein rôl ni fel stiward arian achosion da gan y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol yn caniatáu i ni gefnogi miloedd o bobl a phrosiectau ysbrydoliaethus ar draws y DU.

Mae mwy o wybodaeth amdanom ni, gan gynnwys ein trefniadaeth, ar ein gwefan yma **biglotteryfund.org.uk/einpobl**

## Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod

Mae ein Fframwaith Strategol newydd yn gosod gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer y mudiad rhwng 2015–21 o ran galluogi 'Pobl yn Arwain' ac yn rhoi arweiniad i ni yn y dewisiadau a wnawn **biglotteryfund.org.uk/strategaeth**

Ein ffocws yn ystod blwyddyn gyntaf y Fframwaith Strategol yw gosod sylfeini ar gyfer y dyfodol a sicrhau ein bod yn cyflwyno ein cenhadaeth o 'Ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus'. Rydym wedi pennu tri amcan corfforaethol ar gyfer 2015/16.

# Amcan un

## Ein datganiad

Bydd egwyddorion ein Fframwaith Strategol newydd yn ymwreiddio ar bob lefel o gynllunio busnes, gwneud penderfyniadau a chyflwyno.

## Ein blaenoriaethau

- Peilota ystod o opsiynau ariannu hyblyg ac ymatebol ar gyfer ymgeiswyr, er mwyn cyflawni rhaglen Arian i Bawb symlach
- Lansio rhaglenni newydd a fydd yn cyflwyno ffurflenni byrrach a phenderfyniadau cyflymach ar gyfer prosiectau maint canolig, yn ogystal â blaenoriaethu ariannu ar gyfer prosiectau sydd â chysylltiadau lleol da ac wedi'u harwain gan bobl
- Cryfhau ein model ariannu 'cymysg' trwy greu cysylltiadau gwell rhwng ein rhaglenni strategol (sy'n targedu cyfle neu fater penodol) a'n rhaglenni agored (lle mae pobl yn dweud wrthym beth yw eu syniad)
- Adeiladu ar adborth am ein grantiau gan y sector – er enghraifft, archwilio p'un a allwn adeiladu ar adennill costau llawn, opsiynau ar gyfer ariannu parhad hyblyg, ac ymagweddau buddsoddi cymdeithasol.

## Ein chwe egwyddor allweddol

### Hyder, nid rheolaeth

Mae gennym hyder mewn galluoedd pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli.

### Cryfderau pobl

Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.

### Catalydd i bobl eraill

Rydym yn gwrando ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.

### Prosesau syml, barn dda

Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.

### Unedig nid unffurf

Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau ar draws y DU yn y ffordd a weithiwn, yn gyson o ran yr ansawdd a'r cyfleoedd a gynigiwn i bawb, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.

### Defnyddio adnoddau'n dda

Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n cynnal ein hamgylchedd.

# Amcan dau

## Ein datganiad

Byddwn yn sicrhau bod ein grantiau presennol a datblygu rhaglenni'r dyfodol yn mwyafu'r effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau ac yn helpu eraill i ddysgu'n barhaus o arfer da a'i wella, trwy rannu gwybodaeth a dysgu'n agored.

## Ein blaenoriaethau

- Parhau i ddarparu cymysgedd o fodelau ariannu ym mhob portffolio sy'n gwneud y defnydd gorau o arian y Loteri Genedlaethol ac yn cyrraedd y cymunedau mewn angen mwyaf
- Parhau i dyfu ein cymuned ddigidol fel sianel allweddol i bobl greu cysylltiadau gyda ni ac eraill, gan alluogi iddynt leoli pobl eraill yn hawdd i ddatblygu neu rannu eu hardaloedd a mewnwelediad
- Adeiladu ein gallu i gefnogi'r prosiectau a ariannwn i adrodd a rhannu eu storïau gydag eraill trwy ymgyrchoedd
- Datblygu ymhellach ein gwaith o rannu ein data, gan gefnogi gwell dealltwriaeth o ble mae arian yn mynd a ble nad yw'n mynd, a'r effaith y mae'n ei chael.

# Amcan tri

## Ein datganiad

Byddwn yn datblygu rhaglen gadarn o newid sy'n cynnwys chwe strategaeth alluogi i helpu cyflwyno'r Fframwaith Strategol ar gyfer 2015–21. Yn y flwyddyn hon, byddwn yn adnabod ac yn datblygu cynlluniau i wella yn unol â'r Fframwaith Strategol  ym mhob un o'r chwe maes a ganlyn: gwneud grantiau, pobl, gwybodaeth a dysgu, digidol a thechnoleg, cyfathrebu ac ymgysylltu, a stiwardiaeth ariannol.

## Ein blaenoriaethau

- Ffocysu ein hymdrechion ar ddatblygu ein strategaeth gwneud grantiau a fydd yn sicrhau gwir gyfranogiad a pherchnogaeth gan y bobl y mae ein hariannu'n eu cefnogi ym mhob cam o'r cylch ariannu, yn y rhaglenni a ddatblygwn a'r prosiectau a ariannwn
- Cyfarparu a chynnwys ein pobl yn y dulliau gweithio newydd a ysbrydolir gan ein gweledigaeth, er mwyn iddynt gael eu cefnogi i dyfu eu galluoedd a'u hyder yn barhaus yn unol â'n huchelgeisiau strategol
- Galw ar ddysgu o safbwynt mewnol ac allanol, o fewn y sector ac yn ehangach, i sicrhau bod y sylfeini wedi'u gosod i adeiladu'n llwyddiannus ar ein gweledigaeth strategol yn ystod y chwe blynedd nesaf.

# Cyllidebau Grant

**Mae ein Bwrdd wedi cymeradwyo ein cyllidebau grant ar gyfer 2015/16 a dyma grynodeb o'r hyn y cytunwyd arno ar gyfer pob portffolio:**

| | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
|---|---|
| Lloegr | 493.66 |
| Yr Alban | 81.48 |
| Cymru | 27.92 |
| Gogledd Iwerddon | 27.97 |
| DU | 66.99 |
| **Cyfanswm y gyllideb** | **698.03** |

## Dyma ddadansoddiad llawn o'r gyllideb grant gymeradwy ar gyfer pob un o'n rhaglenni y cynllunnir amdanynt yn 2015/16:

| Rhaglenni Lloegr | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
|---|---|
| Cyngor, Eiriolaeth a Chaledi | 34.00 |
| Heneiddio'n Well – Ariannu Partneriaeth | 0.30 |
| Arian i Bawb Lloegr 09 | 65.70 |
| Building Better Opportunities | 38.45 |
| Strategaeth Galluoedd | 10.00 |
| Commissioning Better Outcomes | 7.45 |
| Early Action Neighbourhood Fund | 0.50 |
| Fulfilling Lives: A Better Start | 0.75 |
| Ymarfer Caffael Uniongyrchol Growth Fund – MDF | 0.95 |
| HeadStart | 59.28 |
| Cronfa Isadeiledd ac Arloesedd – Next Steps 2 | 1.00 |
| Parks for People | 13.11 |
| Reaching Communities | 200.00 |
| Reaching Communities Buildings | 21.36 |
| Talent Match | 0.67 |
| Y Gronfa Silver Dreams | 0.15 |
| Gwasanaethau Menywod | 40.00 |
| | 493.66 |

| Rhaglenni'r Alban | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
| --- | --- |
| Arian i Bawb Yr Alban | 9.23 |
| Cefnogaeth Busnes a Chynllunio | 0.13 |
| Communities and Families Fund | 1.35 |
| Growing Community Assets | 3.00 |
| Investing in Communities 2: CC | 0.22 |
| Investing in Communities 2: GCA | 13.46 |
| Investing in Communities 2: LT | 19.39 |
| Investing in Communities 2: TFL | 16.06 |
| Investing in Ideas 2 | 0.78 |
| Our Place | 0.60 |
| Syniadau Gwych / Dyfarniadau Unigol | 4.00 |
| Cynhwysiad Ariannol UE | 10.00 |
| Portffolio newydd sy'n cael ei ddatblygu | 3.25 |
| | 81.48 |

| Rhaglenni Cymru | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
|---|---|
| Arian i Bawb Cymru | 3.50 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol 2 | 0.50 |
| Pawb a'i Le 2 | 17.80 |
| Pecyn Cefnogaeth | 1.50 |
| Camau yn y Cymoedd | 0.30 |
| Cyllideb ar gyfer datblygu rhaglenni pellach | 4.32 |
| | **27.92** |

| Rhaglenni Gogledd Iwerddon | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
|---|---|
| Sbarduno Syniadau | 1.00 |
| Arian i Bawb Gogledd Iwerddon 3 | 4.49 |
| Reaching Out – Connecting Older People | 1.35 |
| Reaching Out – Connecting Older People D&SC | 0.05 |
| Reaching Out – Empowering Young People | 1.70 |
| Reaching Out – Empowering Young People 2 | 1.50 |
| Reaching Out – Empowering Young People 2 ARR | 1.00 |
| Reaching Out – Supporting Families | 16.04 |
| Reaching Out – Supporting Families ARR | 0.65 |
| Safe and Well | 0.20 |
| | **27.97** |

| Rhaglenni DU | Cyllideb Gymeradwy 2015/16 £m |
| --- | --- |
| Fixers | 2.00 |
| Arwyr yn Ôl 2 | 0.51 |
| Dyfodol Gwell | 2.52 |
| Dyfodol Gwell – Gwerthusiad DU | 0.08 |
| Cymunedau Rhyngwladol | 15.00 |
| Sgiliau Sylfaenol Ar–lein | 8.94 |
| Sbarduno Syniadau | 34.95 |
| Ymddiriedolaeth Manaw | 3.00 |
| | **66.99** |
| **Cyfanswm cyllideb** | **698.03** |

Sylwer y defnyddir 'teitlau gweithio' mewn rhai achosion a bydd yr enw yn cael ei ddiwygio pan fyddwn yn cwblhau adeiladu'r rhaglenni hyn.

Cynhyrchir y dadansoddiad hwn o'r gyllideb cyn diwedd y flwyddyn ariannol felly mae'r ffigurau'n destun addasiadau pellach, gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd, i gario ymlaen unrhyw danwariant y mae'r cyfrifon diwedd blwyddyn yn ei nodi yn y gyllideb grantiau 2015/16. Yn ogystal â hyn, wrth i ni ddatblygu ein portffolio ariannu, gall y symiau a ddyrennir gael eu mireinio o fewn cyfanswm cyffredinol y gyllideb grant.

# Cyllideb costau gweithredu

**Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o incwm y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu, a pharhawn i reoli'r costau hynny i lawr.**

Rydym wedi cyllidebu i gyflawni targed gostau o 5 y cant ar gyfer ein gweithgareddau craidd o brosesu ceisiadau a rheoli grantiau a chyfanswm cyllideb costau gweithredu o 7 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol (y balans yw cefnogaeth rheng flaen i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau ac i'r cyhoedd). Gan hynny, y cyfanswm cyllideb ar gyfer 2015/16 yw £52.4 miliwn.

Cyflawnwyd arbedion yn 2014/15 yn dilyn ailstrwythuro mewnol a chafwyd gostyngiad o 128 mewn lefelau staffio yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, y byddwn yn ei gynnal trwy gydol 2015/16.

Disgwylir proses diwygio'r gyllideb fanylach yn ystod y flwyddyn a fydd yn ymgorffori rhagolwg tair blynedd hwy ac yn adlewyrchu uchelgeisiau Pobl yn Arwain.


Bob
"Marley"




**Ymddiriedolaeth Aldingbourne**
Mae'r ymddiriedolaeth, a sefydlwyd ym 1978, yn cefnogi dros 500 o bobl ag anableddau dysgu gyda llety, cyllid, hygyrchu gwasanaethau iechyd, gwaith a hyfforddiant. Tynnwyd lluniau yn y Ganolfan Cefn Gwlad, lle mae pobl yn dysgu sgiliau gwaith saer.

# Monitro ein perfformiad

Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein perfformiad wrth roi'r cynllun hwn ar waith trwy ein fframwaith adrodd ar berfformiad corfforaethol.

Rydym wedi adnabod chwe Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer tracio ein cynnydd yn 2015/16:

- Mae o leiaf 80 y cant o'r cyfanswm cyllideb dyfarniadau grant cytunedig ar gyfer 2015/16 wedi'i ymrwymo
- Erbyn diwedd y flwyddyn mae'r grantiau a delir i'r holl brosiectau a ariannwn o fewn 20 y cant o'r cyfanswm taliadau rydym yn ei ragfynegi
- Mae'r cyfanswm gwariant ar gostau gweithredu (costau craidd a rheng flaen) o fewn 7 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol
- Byddwn yn prosesu o leiaf 91 y cant o geisiadau ariannu o fewn yr amseroedd cwblhau rydym wedi'u cyhoeddi
- Mae o leiaf 77 y cant o gwsmeriaid ar draws y DU yn fodlon ar ein gwasanaeth
- Mae o leiaf 92 y cant o raglenni grant yn cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig.

Bydd y blaenoriaethau a thargedau hyn yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i dracio cynnydd ein rhaglen ac i'w halinio ymhellach ag uchelgeisiau'r Fframwaith Strategol 2015–21.

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

cronfaloterifawr.org.uk
0300 123 0735

facebook.com/biglotteryfundwales
twitter.com/loterifawrcymru

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®